# RHAGAIR

Pan fu farw ym Mawrth 1987 yr oedd Dr E. D. Jones wedi casglu'r mwyafrif o'r ysgrifau yr oeddid wedi cytuno i'w cynnwys yn *Y Bywgraffiadur Cymreig 1951-1970* a'r Atodiad ac yr oedd wedi golygu llawer ohonynt. Yr oedd ef yn hen gyfarwydd â'r gwaith – yn olygydd profiadol ac yn archifydd trwyadl a threfnus a âi ati'n gyson i gofnodi enwau ac i godi ysgrifau coffa yn y wasg, i nodi cywiriadau a dilysu ffeithiau: ysgrifennodd lawer cofnod ei hun. Wedi cyfnod yn cynorthwyo Dr R. T. Jenkins, E. D. Jones a gwblhaodd y gwaith o olygu a dwyn trwy'r wasg *Y Bywgraffiadur Cymreig 1941-1950* wedi ymddeoliad, ac yna farw, yr ysgolhaig hwnnw. Colled enfawr oedd na chafodd E. D. Jones fyw i gwblhau ei waith yntau ar y trydydd *Bywgraffiadur* hwn.

Gwahoddwyd fi i ymgymryd â'r olygyddiaeth ychydig amser wedi marwolaeth E. D. Jones. Yr oeddwn ar y pryd yn Llyfrgellydd y Llyfrgell Genedlaethol ac yn fy niniweidrwydd tybiais y gallwn gyflawni'r gwaith hwn tra oeddwn yn fy swydd. Buan iawn y sylweddolais faint fy rhyfyg ac ni lwyddais i wir fynd ati, ar wahân i gasglu rhai cofnodion a oedd heb ddod i law ac i olygu ychydig, nes imi ymddeol yn 1994. Mawr yw fy nyled i Gyngor Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion a'i ysgrifennydd ar y pryd, Mr David Jones, ac i'r cyfranwyr hwythau am eu hamynedd.

Ychydig o gofnodion a oedd heb eu cywain gan E. D. Jones a bu rhaid ymorol am y rheini a threfnu i lunio rhai eraill. Arhosai gwaith golygu ac yma a thraw gwelir ychydig anghysondeb mewn mannau yn y confensiynau golygyddol a ddilynai ef a'm rhai i. Cafodd E. D. Jones gymorth gwerthfawr Dr Auronwy James tra bu'n olygydd a mantais fawr iawn imi yw iddi gydsynio i fod yn gynorthwyydd i minnau. Elwais yn ddirfawr ar ei phrofiad, ei thrylwyredd a'i chraffter. Mr Gwyn Davies a lywiodd y gwaith trwy'r wasg ac y mae arnaf ddyled arbennig iddo yntau. Hoffwn ddiolch i Argraffwyr Cambrian (Aberystwyth) am bob cydweithrediad ac am eu gwaith argraffu glân.

Yn sylfaenol dilyn y *Bywgraffiadur* hwn yr un patrwm â'i ragflaenydd, *Y Bywgraffiadur Cymreig 1941-50*, sef adran 1951-1970 ac Atodiad yn cynnwys ychwanegiadau a chywiriadau i'r ddau *Bywgraffiadur* blaenorol. Cadwyd yr un byrfoddau ag yn y ddwy gyfrol gynharach gydag ychydig o rai ychwanegol.

Brynley F. Roberts